Y Fonesig Rosemary Butler AC
Dame Rosemary Butler AM

Llywydd
Presiding Officer

Y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
1 Caspian Point
Bae Caerdydd
CF10 4DQ

Eich cyf:
Ein cyf: PO/RB/ER

9 Tachwedd 2015

Annwyl Stephen

**Bil Drafft Cymru**

Rwyf wedi cael cyfle, erbyn hyn, i ystyried Bil Cymru drafft. Mae llawer i'w groesawu yn y Bil drafft mewn perthynas â datganoli cymhwysedd dros ein trefniadau mewnol ac etholiadol. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, yr wyf yn credu bod angen gwella'r model cadw pwerau'n ôl arfaethedig os mai hwn fydd y setliad parhaol sydd ei angen ar y Cynulliad. Rwyf wedi ymrwymo i barhau i weithio'n adeiladol gyda chi i gryfhau'r Bil.

Rwyf wedi nodi eich llythyr dyddiedig 5 Tachwedd a byddaf yn ymateb yn fanylach maes o law. Yn y cyfamser, mae fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cynnig awgrymiadau ar gyfer gwella'r Bil drafft.

**Y darpariaethau ariannol, atebolrwydd ac archwilio**

Un maes newydd y cyfeiriaf ato yn fy nhystiolaeth yw pwerau'r Cynulliad mewn perthynas â'r darpariaethau ariannol, atebolrwydd ac archwilio a gynhwysir yn Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Byddwn yn ddiolchgar pe gellid mynd i'r afael â'r materion y tynnir sylw atynt yma fel rhan o'n cydweithio parhaus yn ystod y cyfnod craffu cyn deddfu, a'u hystyried mewn pryd ar gyfer cyflwyno Bil Cymru yn 2016.

**E-bost newydd: Swyddfa.Breifat@cynulliad.cymru / Rhif ffôn newydd: 0300 200 6232**
**New e-mail: Private.Office@assembly.wales / New telephone number: 0300 200 6232**
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
Swyddfa.Breifat@cymru.gov.uk
www.cynulliadcymru.org
T +44 (0)29 2089 8230

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1NA
Private.Office@wales.gov.uk
www.assemblywales.org
T +44 (0)29 2089 8230

## Y rhesymau dros newid y darpariaethau ariannol

Mae'r darpariaethau ariannol ac atebolrwydd presennol ar gyfer Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad wedi eu nodi'n bennaf yn Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, ac mae rhai hefyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a Deddf Cymru 2014. Gan nad oedd gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol cyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (a dim ond cymhwysedd cyfyngedig cyn refferendwm 2011), nid yw'r darpariaethau hyn, bellach, yn adlewyrchu aeddfedrwydd y Cynulliad ac maent ychydig yn rhagnodol - yn pennu trefniadau manwl ar gyfer cymeradwyo cyllidebau, penodi swyddogion cyfrifyddu, a pharatoi ac archwilio cyfrifon. I gymhlethu'r sefyllfa ymhellach, mae darpariaethau sy'n nodi gofynion cyfrifyddu ac archwilio ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill wedi'u pennu mewn amrywiol ddeddfiadau. Mae diffyg cysondeb ynddynt oherwydd iddynt gael eu drafftio ar wahanol adegau, ac mae'r derminoleg a'r arferion gorau wedi esblygu gydag amser.

Mae natur ragnodol y darpariaethau presennol wedi ei gwneud yn anodd arddel yr arferion gorau.[1] Unig ddiben y darpariaethau presennol oedd awdurdodi adnoddau a ddyrennir gan y Trysorlys. O gofio'r datganoli ariannol y darparwyd ar ei gyfer yn Neddf Cymru 2014, mae'r darpariaethau hyn yn debygol o golli gwerth yn y dyfodol.

Mae'r sefyllfa hon yng Nghymru yn gwbl groes i'r sefyllfa yn yr Alban. Yno, mae'r Senedd wedi cael cymhwysedd i ddeddfu ar faterion o'r fath o'r cychwyn, ac wedi pasio Deddf Cyllid Cyhoeddus ac Atebolrwydd (Yr Alban) 2000 i ddarparu ar gyfer fframwaith ariannol cynhwysfawr a chydlynol.

Yn unol â chanfyddiadau Comisiwn Silk, fy marn i yw y dylai'r Cynulliad gael yr hyblygrwydd mwyaf posibl i ddeddfu ar gyfer darpariaethau ariannol ac atebolrwydd, yn ddarostyngedig i rai mesurau diogelwch sylfaenol [i ddarparu ar eu cyfer neu eu cadw] yn neddfwriaeth San Steffan. Mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad hefyd wedi argymell hyn[2], a chafwyd ymateb cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru i'r argymhelliad hwn.[3] Pe bai gennym gymhwysedd i

---

[1] Fel y nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid Arferion Gorau o ran y Gyllideb Rhan 2 - Cynllunio gweithdrefnau cyllidebol newydd a'u rhoi ar waith, Mawrth 2015

[2] Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Arferion Gorau o ran y Gyllideb Rhan 2 – Cynllunio gweithdrefnau cyllidebol newydd a'u rhoi ar waith (Ymateb i argymhelliad 12)

[3] Y Pwyllgor Cyllid, Arferion Gorau o ran y Gyllideb Rhan 2 – Cynllunio gweithdrefnau cyllidebol newydd a'u rhoi ar waith, Mawrth 2015

wneud hynny, gallai'r Cynulliad, a hynny ar y cyfle cyntaf, gyflwyno Bil i foderneiddio proses y gyllideb a chreu darpariaethau cyfrifyddu ac archwilio cyffredin a modern ar gyfer pob corff cyhoeddus yng Nghymru. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cynulliad gymhwysedd i basio deddfwriaeth o'r fath. [4]

Credaf fod Bil Cymru yn gyfle delfrydol i ddiwygio'r darpariaethau ariannol rhagnodol presennol a chaniatáu i'r Cynulliad ddeddfu mewn modd cyfannol i benderfynu ar ei drefniadau ariannol ei hun drwy gyfrwng deddfwriaeth fframwaith ariannol.

Yn yr atodiadau canlynol nodaf y dull a ffefrir gennyf ar gyfer gwneud hyn. Yn Atodiad A mae manylion mesurau diogelwch a ddylai aros yn neddfwriaeth San Steffan, a darpariaeth y dylid ei gwneud mewn Bil fframwaith ariannol y Cynulliad pe bai cymhwysedd yn cael ei roi. Yn Atodiad B mae'r newidiadau manwl yr hoffwn eu gweld yn cael eu gwneud i Fil Cymru drafft mewn perthynas â'r darpariaethau ariannol, atebolrwydd ac archwilio.

Gobeithio y gwnewch ystyried hyn a chefnogi trafodaethau pellach rhwng ein swyddogion ar y mater.

Cofion gorau

Rosemary

**Y Fonesig Rosemary Butler AC**
**Llywydd**

cc Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru
Jane Hutt AC, Y Gweinidog Cyllid
Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Darren Millar AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru
Andrew R T Davies AC, Arweinydd, Ceidwadwyr Cymreig
Kirsty Williams AC, Arweinydd, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Leanne Wood AM, Arweinydd, Plaid Cymru

---

[4] Rhoddodd Deddf Cymru 2014 bŵer i'r Cynulliad benderfynu ar ei weithdrefnau cyllidebol ei hun (diwygio Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y gellid addasu adrannau 125-128). Fodd bynnag, nid yw hyn yn caniatáu i'r Cynulliad addasu neu ddarparu'r fframwaith ariannol ehangach.

**Atodiad A: Y dull a ffefrir ar gyfer y darpariaethau ariannol mewn deddfwriaeth**

**Y mesurau diogelwch sylfaenol sydd eu hangen yn neddfwriaeth San Steffan.**

Fel y soniais yn fy llythyr, dylai deddfwriaeth San Steffan bennu'r gofynion sylfaenol ar gyfer deddfwriaeth Cymru o ran y darpariaethau ariannol. Yn fy marn i, dylai gofynion sylfaenol o'r fath gynnwys y canlynol:

a) Trefniadau ar gyfer penodi, diswyddo ac annibyniaeth weithredol Archwilydd Cyffredinol Cymru.
b) Darpariaeth ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru, a darpariaeth sy'n golygu na ellir rhyddhau arian o'r Gronfa honno dim ond yn unol â deddfwriaeth neu gymeradwyaeth y Cynulliad, gyda chredydau yn cael eu rhoi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
c) Darpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod deddfwriaeth y Cynulliad yn darparu ar gyfer awdurdodi'r defnydd o adnoddau, dynodi swyddogion cyfrifyddu, paratoi ac archwilio cyfrifon, ac archwiliadau gwerth am arian (gan gynnwys darpariaeth ar gyfer trefniadau archwilio Swyddfa Archwilio Cymru).
d) Darpariaeth ar gyfer gosod cyfrifon ac adroddiadau a baratowyd o dan (c) gerbron y Cynulliad, a bod y Cynulliad yn cyhoeddi'r cyfryw gyfrifon ac adroddiadau.

**Darpariaethau ariannol i'w cynnwys yn neddfwriaeth y Cynulliad**

Yn amodol ar union gynnwys deddfwriaeth San Steffan, yn ddelfrydol byddai gan y Cynulliad gymhwysedd i basio Deddf Cyllid ac Atebolrwydd (Cymru) a allai ddiddymu a disodli'r darpariaethau a restrir yn y tabl isod. I grynhoi, ac at ddibenion enghreifftiol yn unig, gallai Deddf o'r fath gynnwys:

a) Darpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i lunio deddf cyllideb flynyddol i awdurdodi trethu, benthyca a defnyddio adnoddau, a fyddai'n debyg i'r hyn a awgrymwyd gan y Pwyllgor Cyllid. Hefyd, byddai angen darpariaeth ar gyfer gwneud newidiadau yn ystod y flwyddyn, a chamau gweithredu wrth gefn pe na byddai cyllideb wedi'i hawdurdodi cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.
b) Darpariaeth ar gyfer dynodi prif swyddogion cyfrifyddu a swyddogion cyfrifyddu ychwanegol. Gallai rôl Pwyllgor y Trysorlys/Archwilio o ran pennu dyletswyddau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu o ran Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, Swyddfa Archwilio Cymru a chomisiynwyr annibynnol gael

ei disodli gan ddyletswyddau statudol tebyg i'r rhai yn adrannau 14 i 18 o Ddeddf Cyllid Cyhoeddus ac Atebolrwydd (Yr Alban) 2000.

c) Darpariaeth fel y gallai Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru ddynodi Swyddogion Cyfrifyddu ar gyfer cyrff eraill y mae'n eu hariannu - yn bennaf cyrff y GIG a chyrff a noddir - ac i bennu eu dyletswyddau.

d) Darpariaeth sy'n ymwneud â gweithredu Cronfa Gyfunol Cymru, (gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol bod credydau yn cael eu hawdurdodi gan yr Archwilydd Cyffredinol), bod Gweinidogion Cymru yn paratoi cyfrifon blynyddol y Gronfa a bod yr Archwilydd Cyffredinol yn eu harchwilio.

e) Darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus (i'w rhestru mewn atodlen y gellir ei diweddaru fel y bo'r angen) baratoi cyfrifon ar ffurf a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru, gan roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol bod y cyfrifon hynny wedyn yn cael eu harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol a'u gosod gerbron y Cynulliad.[5]

f) Pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i gynnal archwiliadau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i gael eu cydgrynhoi ac i gwmpasu pob corff yn (e) ac unrhyw gorff - neu ddosbarth o gyrff - y mae ei incwm o gronfeydd cyhoeddus yn fwy na 25 y cant o'i gyfanswm. Gellid gwneud hyn hefyd drwy gyfrwng rhestr a fydd yn cael ei diweddaru o bryd i'w gilydd drwy Orchymyn.

g) Diogelu hawliau'r Archwilydd Cyffredinol o ran dogfennau a gwybodaeth.

Gallai Rheolau Sefydlog y Cynulliad bennu trefniadau manylach sy'n ymwneud â darpariaethau ariannol, er enghraifft ymdrin â Biliau Cyllideb, a darpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol mai dim ond un o Weinidogion Cymru a gaiff gyflwyno'r Biliau.

[5] Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 eisoes yn darparu ar gyfer archwilio Swyddfa Archwilio Cymru.

## Atodiad B: Newidiadau a awgrymir i'r darpariaethau ariannol

Nodwn fod Deddf Cymru 2014 eisoes wedi ymdrin â darpariaethau sy'n ymwneud â gweithdrefnau cyllidebol (adrannau 125 i 128 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) ac felly nid yw'r rheini wedi'u cynnwys yn y tabl canlynol.

Fodd bynnag, byddem yn awgrymu nad oes angen paragraffau 7(5) a (6) o Atodlen 7B i Fil Cymru drafft o dan fodel cadw pwerau'n ôl ac y byddai'n well i'r rhain gael eu disodli gan ddarpariaeth gyffredinol a fyddai'n atal adnoddau rhag cael eu defnyddio gan Weinidogion Cymru a phersonau perthnasol eraill a restrir yn Adran 124(3) oni bai bod y Cynulliad yn awdurdodi hynny - fel y nodir yn y tabl isod.

### Tabl 1: Newidiadau a awgrymir i ddarpariaethau ariannol Deddf Llywodraeth Cymru 2006

| Deddf Llywodraeth Cymru 2006 | Y camau gweithredu a awgrymir | Yr Alban |
|---|---|---|
| Adran 30(1) y Pwyllgor Archwilio ac Adran 143 adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio | **Dwyn o fewn cymhwysedd:** gweler y nodyn isod | Mae Adran 70 o Ddeddf yr Alban 1998 yn nodi bod y Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer ystyried cyfrifon ac adroddiadau archwilio yn y senedd. |
| Adran 118(2): Grantiau Ac Adran 120(1): Y cyfrif y telir derbyniadau iddo | **Diwygio**: Dylai'r adrannau hyn barhau yn neddfwriaeth San Steffan, ond gellid eu cyfuno â darpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod grantiau/derbyniadau Gweinidogion Cymru, Comisiwn y Cynulliad a chyrff eraill a ariennir yn uniongyrchol yn cael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru, yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf Cynulliad ar gyfer gwaredu symiau o'r fath neu roi cyfrif am symiau o'r fath.<br><br>Byddwn hefyd yn awyddus i sicrhau bod y Cynulliad yn gallu ychwanegu at y rhestr o bersonau perthnasol yn Adran 120(1) ond na chaniateir iddo ddileu unrhyw un o'r pedwar cofnod presennol. | Mae rhywfaint o ddarpariaeth yn Adran 64 o Ddeddf yr Alban 1998. |
| Adran 119: Datganiad o daliadau amcangyfrifedig | **Diddymu**: roedd hwn yn briodol cyn i gyllidebu adnoddau gael ei gyflwyno, ond nid yw bellach yn berthnasol. Yn wir, credaf mai Llywodraeth Cymru sydd bellach yn rhoi'r wybodaeth berthnasol i Swyddfa Cymru. | Dim darpariaeth debyg. |
| Adran 124: Taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru | **Diwygio**: Mae angen i'r adran hon barhau yn neddfwriaeth San Steffan, ond gellid ei symleiddio, a dileu'r cyfeiriadau at benderfyniadau cyllidebol (adrannau 125 i 128). | Mae darpariaeth debyg yn Adran 65 o Ddeddf yr Alban 1998. |

| | | |
|---|---|---|
| | Gallai hefyd ei gwneud yn ofynnol na chaiff symiau a dalwyd allan o'r Gronfa eu defnyddio at unrhyw ddiben arall heblaw'r hyn y talwyd yr arian ar ei gyfer, a bod y gofyniad hwn yn drech na darpariaethau eraill.<br><br>Byddwn hefyd yn awyddus i sicrhau bod y Cynulliad yn gallu ychwanegu at y rhestr o bersonau perthnasol yn Adran 124(3) ond na chaniateir iddo ddileu unrhyw un o'r pedwar cofnod presennol. | |
| Adrannau 129-130: Rhoi cymeradwyaeth i dynnu arian allan a thaliadau a wnaed mewn camgymeriad | **Dwyn o fewn cymhwysedd:** Dylai'r Cynulliad fod â hawl i ddiwygio'r darpariaethau hyn - yn ddarostyngedig ar fod deddfwriaeth San Steffan yn cadw diogelwch adran 124. | Mae Adran 65 o Ddeddf yr Alban 1998 yn cynnwys darpariaeth gyfyngedig o ran rhoi cymeradwyaeth i dynnu arian allan. |
| Adrannau 131-134, 137-139 ac 141-142: Darpariaethau ar gyfer penodi swyddogion cyfrifyddu ac i baratoi ac archwilio cyfrifon ar gyfer Gweinidogion Cymru, Comisiwn y Cynulliad a chyfrif y llywodraeth gyfan.<br><br>Mae adrannau 135 a 140 yn darparu ar gyfer swyddogaethau archwilio'r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â Gweinidogion Cymru a Chomisiwn y Cynulliad (a 145 i 145D o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998)[a] | **Dwyn o fewn cymhwysedd:** Nid yw Atodlen 7B yn caniatáu i'r Cynulliad ddiwygio'r darpariaethau hyn.<br><br>Dylai'r Cynulliad allu pasio deddfwriaeth mewn perthynas â pharatoi cyfrifon, eu harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol, ymchwiliadau gwerth am arian gan yr Archwilydd Cyffredinol, ac atebolrwydd cyrff cyhoeddus i'r Cynulliad mewn perthynas â rheolaeth ariannol, yn ddarostyngedig i fesurau diogelu gofynnol a sylfaenol San Steffan (fel uchod).<br><br>Mae anghysondebau yn hyn o beth y mae angen rhoi sylw iddynt yn y Bil drafft oherwydd bydd y Cynulliad yn gallu deddfu ar y darpariaethau cyfrifyddu ac archwilio ar gyfer cyrff cyhoeddus ar wahân i Weinidogion Cymru a Chomisiwn y Cynulliad a bydd yn gallu diwygio darpariaethau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer rhai cyrff, ond nid rhai eraill[a]. Mae hyn yn cyfyngu'r Cynulliad oherwydd mae'n ei rwystro rhag deddfu i greu cyfres gyffredin o ddarpariaethau archwilio gwerth am arian y gellid ei chymhwyso i bob corff cyhoeddus datganoledig.<br><br>Gweler hefyd y nodyn isod ynghylch darpariaeth ar gyfer swyddogion cyfrifyddu. | Mae Adran 70 o Ddeddf yr Alban 1998 yn caniatáu i ddeddfwriaeth yr Alban ddarparu ar gyfer rheolaeth ariannol, cyfrifon ac archwilio. |
| Adran 136: Archwiliadau gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol | Mae adran 136 (a'r cyfeiriadau yn adrannau 6 i 9 o Ddeddf Archwilio Genedlaethol 1983) yn rhoi hawl i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol | Dim darpariaeth gyfatebol |

| | | |
|---|---|---|
| | gael mynediad i gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru at ddibenion paratoi adroddiad i Senedd y DU ar y modd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn defnyddio adnoddau. Darpariaethau wrth gefn ydynt ac nid ydynt wedi'u defnyddio hyd yma. Nid oes darpariaethau o'r fath yn yr Alban nac yng Ngogledd Iwerddon a gellid dadlau nad oes eu hangen yng Nghymru mwyach gan fod Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad bellach wedi'u gwahanu'n gyfreithiol. (Gweler y nodyn isod) | |

a. Hefyd, paragraff 8 o Atodlen 6 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, paragraff 11 o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000, paragraff 19 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus 2005, a pharagraff 13 o Atodlen 1 i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Hefyd, mae deddfwriaeth y Cynulliad wedi cynnwys darpariaeth o'r fath ar gyfer cyrff a sefydlwyd ers 2006 (ee Comisiynydd y Gymraeg).

## Darpariaeth ar gyfer Pwyllgor Archwilio (Adrannau 30 ac 143 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006)

Mae'r gofyniad i'r Cynulliad fod â phwyllgor 'archwilio', sef pwyllgor â swyddogaeth 'cyfrifon cyhoeddus', wedi'i gynnwys yn adran 30(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r Bil drafft yn rhoi cymhwysedd i ddiwygio adran 30(2) - (4) ynghylch cyfansoddiad pwyllgor o'r fath. Cylch gwaith y pwyllgor hwn yw ystyried cyfrifon ac adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol, cymryd tystiolaeth gan y swyddog cyfrifyddu a llunio adroddiad i'r Cynulliad, fel y nodir yn adran 143 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Nid yw paragraff 7 o Atodlen 7B i Fil Cymru drafft yn caniatáu i'r Cynulliad ddiwygio neu ddiddymu Adran 30(1) nac Adran 143. Felly, mae'n rhaid iddo barhau i fod â phwyllgor o'r fath gyda'i swyddogaethau presennol. Fodd bynnag, mae paragraff 5(6) o Atodlen 7B yn cadw'r ddarpariaeth sy'n caniatáu i'r Cynulliad roi swyddogaethau, er enghraifft goruchwylio'r Archwilydd Cyffredinol ar bwyllgor heblaw'r pwyllgor archwilio, ond mae'r cyfyngiadau ar gyfansoddiad y pwyllgor hwnnw yn parhau.

I bob golwg, mae hyn yn anghyson ac mae hefyd yn groes i athrawiaeth model cadw pwerau'n ôl, gan fod y pwerau cyfyngedig sydd ar gael i'r Cynulliad, i bob golwg, yn rhai a roddir. Er enghraifft, efallai y bydd y Cynulliad yn y dyfodol yn awyddus i sefydlu Comisiwn Cymru ar gyfer Archwilio Cyhoeddus, tebyg i'r un yn San Steffan a'r Alban, ond ni fyddai'n gallu gwneud hynny o dan y cynigion hyn.

Hoffwn weld Atodlen 7B yn cael ei diwygio fel y gall y Cynulliad ddiwygio adrannau 30(1) a 143 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (yn ogystal ag adran 144(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998).[6] Fel mesur diogelu,

[6]Mae adrannau 143(2) o Ddeddf 2006 ac Adran 144(7) o Ddeddf 1998 yn caniatáu i'r pwyllgor archwilio gymryd tystiolaeth ar ran Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin os gofynnir am hynny, a llunio adroddiad. Ni

gallai'r Bil gynnwys darpariaeth gyffredinol (na ellir ei diwygio) sy'n ei gwneud yn ofynnol bod deddfwriaeth y Cynulliad neu'r Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer ystyried cyfrifon ac adroddiadau a osodir gan yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru.

**Darpariaeth ar gyfer Swyddogion Cyfrifyddu**

Credaf y dylai'r Cynulliad gael hawl i addasu/diddymu unrhyw ddarpariaeth ar gyfer swyddogaethau, a gaiff eu harfer ar hyn o bryd gan y Trysorlys, mewn perthynas â dynodi swyddogion cyfrifyddu, pennu cyfrifoldebau swyddogion cyfrifyddu a rhoi cyfarwyddiadau o ran paratoi cyfrifon (ee adrannau 131 i 134 ac adrannau 137 i 139). Mae hyn er gwaethaf unrhyw gyfyngiad cyffredinol ar y Cynulliad rhag diwygio neu ddiddymu swyddogaethau Gweinidogion y Goron heb gydsyniad.

Y rheswm am y cais hwn yw ein bod yn ceisio cydraddoldeb â'r Alban yn hyn o beth lle caiff swyddogaethau o'r fath eu harfer yn lleol yn hytrach na chan y Trysorlys. Yn y dyfodol, rydym yn rhagweld y byddai swyddogaethau o'r fath sydd gan y Trysorlys yn cael eu harfer yn bennaf gan y swyddogaeth Drysorlys o fewn Llywodraeth Cymru.

**Swyddogaethau'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Ers 1999, mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol wedi cael pŵer i archwilio'r modd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn defnyddio adnoddau. Mae hyn yn groes i'r sefyllfa yn yr Alban lle cafodd pwerau'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol eu datgymhwyso ar ddechrau datganoli.

Yn wreiddiol, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel corff corfforaethol sy'n gyfrifol am arfer swyddogaethau gweithredol. Nid oedd y weithrediaeth wedi'i gwahanu'n gyfreithiol o'r ddeddfwrfa, fel sydd wedi digwydd erbyn hyn. Felly, yn ôl y gyfraith, roedd y 60 Aelod Cynulliad yn dal yn gorfforaethol gyfrifol am swyddogaethau'r llywodraeth ac roedd y Cynulliad felly yn dwyn ei hun i gyfrif.

Ym model San Steffan, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cael ei benodi neu'n cael ei enwebu gan y ddeddfwrfa, a'r ddeddfwrfa hefyd sy'n pennu ei gyllid. Fodd bynnag, o gofio bod yr Egwyddorion Archwilio Cyhoeddus a dderbynnir yn atal cyrff a archwilir rhag penodi eu harchwilydd eu hunain, nid oedd hyn yn bosibl o dan y trefniadau yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998. Felly,

---

ddylid bod angen darpariaeth benodol o'r fath ar gyfer y math yma o gydweithredu rhwng seneddau. Hefyd, mae paragraff 7(6) o Atodlen 6 i Ddeddf 1998, paragraff 10(5) o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000, paragraff 18(5) o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) a pharagraff 11(5) o Atodlen 1 i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 oll yn cynnwys darpariaethau tebyg ond nid oes cyfyngiad ar y gallu i'w diwygio yn Atodlen 7B i'r Bil drafft.

gwnaed darpariaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru gael ei benodi gan Ei Mawrhydi ar gyngor yr Ysgrifennydd Gwladol. Er mai'r Cynulliad oedd yn ariannu Archwilydd Cyffredinol Cymru, cafodd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol hawliau mynediad i'r Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru fel mesur diogelu.[7] Rheswm arall dros roi hawliau mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol oedd canlyniad agos y refferendwm yn 1997 a'r angen i roi sicrwydd i'r Senedd dros reolaeth ariannol.

Hyd y gwyddom, nid yw pwerau'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol wedi'u defnyddio hyd yma. Gellid dadlau y dylid bod wedi'u dileu pan gafodd y weithrediaeth a'r ddeddfwrfa eu gwahanu'n gyfreithiol gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.[8] Fodd bynnag, mae'r newidiadau a wnaed i'r setliad datganoli yng Nghymru gan Ddeddfau 2006 a 2014, a'r newidiadau pellach sydd yn yr arfaeth ym Mil Cymru, yn awgrymu nad yw'r resymau dros roi'r pwerau wrth gefn hyn i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn gymwys bellach.

Gofynnwn felly am newid Bil Cymru fel bod Cymru'n gydradd â'r Alban yn hyn o beth. Golyga hyn bod angen i'r Bil ddiddymu'r darpariaethau canlynol:

- Adran 136 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;
- Adran 145(6) ac Atodlen 6, paragraff 9 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998;
- Atodlen 1, paragraff 20 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus 2005;
- Atodlen 2, paragraff 12 o Ddeddf Safonau Gofal 2000;
- Atodlen 1, paragraff 14 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006; a
- rhannau perthnasol o Adrannau 6, 8 a 9 o Ddeddf Archwilio Genedlaethol 1983. Hefyd, byddai angen datgymhwyso'n benodol Adrannau 6 a 7 o Ddeddf 1983 i gyrff cyhoeddus yng Nghymru fel y gwnaed yn yr Alban gan Ddeddf yr Alban 1998, Atodlen 8, paragraff 20.

---

[7] Er enghraifft, pe byddai'r Cynulliad wedi ceisio llyffetheirio gallu Archwilydd Cyffredinol Cymru i arfer ei swyddogaethau (ee drwy roi llai o gyllideb iddo) byddai'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol wedi gallu ymyrryd.

[8] Yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006 newidiwyd y trefniadau penodi ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru i gydnabod y ffaith nad yw'r Cynulliad bellach yn gorff corfforaethol sy'n arfer swyddogaethau llywodraeth – erbyn hyn mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cael ei benodi gan Ei Mawrhydi ar enwebiad y Cynulliad.